

Meini Prawf Ariannu:

Gronfa Waddol Dr Dewi Davies

Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn darparu cefnogaeth i:

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i daclo tlodi ac unigedd gan gynnwys tlodi tanwydd a phroblemau gwledig.
- Mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl hŷn i leihau unigrwydd.
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi hyrwyddo a dysgu Cymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru.
- Adeiladu hyder ac ehangu gorwelion unigolion gydag phrinder adnoddau
- Unigolion talentog i ddilyn eu huchelgeisiau e.e. bwrsariau, offer, offerynnau.

Y Grantiau sydd ar gael

- Gall unigolion ymgeisio am grantiau o hyd at **£500**.
- Gall sefydliadau ymgeisio am grantiau o **£500 - £5000**.
- Os bydd achos eithriadol am gefnogaeth, gellir dyfarnu grantiau **£10,000** i sefydliadau.

Yn 2020 cyhoeddodd Sefydliad Cymunedol Cymru ganfyddiadau ymchwil a wnaed gyda mwy na 100 o grwpiau cymunedol ar draws Cymru. Amlygodd ein hadroddiad Yn Uchel ac yn Groch fod elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru eisiau i arianwyr roi blaenoriaeth i arian craidd ac i bartneriaethau tymor hirach. Rydym wedi defnyddio yr hyn a ddysgwyd o'r adroddiad i ffurfio meini prawf Cronfa Waddol Dr Dewi Davies. Erbyn hyn bydd y gronfa'n cefnogi costau craidd sefydliadau sy'n gweithio mewn meysydd cymwys ac yn cefnogi'r themâu a amlygwyd uchod.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bod grwpiau'n gallu cynllunio ar gyfer y dyfodol, a bod gwybod bod arian ar gael yn gallu rhoi hyder a sicrwydd i chi i ddatblygu'ch prosiect yn y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn cynnig cyfle i grwpiau ymgeisio am arian am sawl blwyddyn, hyd at dair blynedd, ond bydd hefyd yn dal i gynnig arian ar gyfer prosiectau un flwyddyn.

Rydym yn gobeithio gallu dyrannu o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried ar gyfer grant tair blynedd, dylech gwblhau'r adran ychwanegol ar y ffurflen gais i ddangos sut rydych yn bwriadu datblygu'ch prosiect dros y cyfnod ariannu yr ymgeisir amdano. D.S. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried ar gyfer cyllid un flwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus am grant tair blynedd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl, nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â, ac yn cyd-fynd â, gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol. Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn eich cais yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

Pwy all wneud cais?

Unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw yn yr Ardaloedd Allbwn Uwch (LSOAs) haen isaf fel y'u gelwir yn fwy cyffredin:

Yn Sir Gaerfyrddin

Cenarth, Cynwyl Elfed 1, Llanfihangel ar Arth 1 a 2, Llangeler a Llanybydder 1 a 2

Yng Ngheredigion

Aberporth 1 a 2, Beulah, Capel Dewi, Aberteifi Mwldan, Caerdydd Rhyd y Fuwch, Aberteifi Teifi, Llandyfriog, Tref Llandysul, Llanwenog, Penbryn, Pen-parc 1 a 2 a Troedysau.

Mae'r gronfa'n cynnwys Trefi Aberteifi - Aberporth, Newcastle Emlyn, Llandysul a Llanybydder ynghyd â'r pentrefi cyfagos.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob grŵp lenwi ffurflen gais ar lein y gellir ei chael drwy ein gwefan. Os ydych yn ymgeisio fel unigolyn, dylech lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen gais o'n gwefan a'i llenwi.

Cofiwch:

- Ni fyddwn yn dyfarnu grantiau'n ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes yn ddyledus cyn derbyn y llythyr cynnig grant a llofnodi'r telerau ac amodau.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos yr angen ariannol / chymdeithasol y bydd y grant yn ei ddiwallu.
- Ni roddir grantiau i unigolion tuag at gostau os oes cefnogaeth ariannol arall ar gael e.e. ffioedd hyfforddiant ble mae'r ymgeisydd yn gymwys ar gyfer benthychiad myfyriwr.
- Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi derbyn cefnogaeth o'r Gronfa hon o'r blaen.